

# RHEOLAU a RHEOLIADAU – Pysgota, Carafanio a Gwersylla

## Pysgota

I sicrhau diogelwch ymwelwyr ac i gynnal cywirdeb amgylcheddol yr ardal, mae'r rheolau a'r rheoliadau canlynol mewn grym yn Llynnoedd Llŷn. Rhaid i bob pysgotwr ac ymwelydd ddarllen a derbyn y telerau ac amodau cyn pysgota neu ymweld â'r fferm.

1	Rhaid i bysgotwyr ac ymwelwyr gadw at Gôd Cefn Gwlad Cymru, a ellir ei weld ar: <a href="#">Cod Cefn Gwlad Cymru</a>
2	Rhaid i bob cerbyd gael ei barcio yn yr ardal barcio ddynoedig. Ni chaniateir cerbydau yn agos at y llynnoedd. Mae'r parcio yn llwyr ar fenter perchennog y cerbyd.
3	Rhaid i yrrwr pob cerbyd gadw at y cyfyngder cyflymder o 5mya o fewn ffiniau'r fferm.
4	Nid chaiff unrhyw bysgotwr nac ymwelydd gerdded yn y caeau heb ganiatâd y perchennog. Os derbynir caniatâd i wneud hynny, bydd hynny ar fenter yr unigolyn.
5	Gwaherddir taflu sbwriel. Rhaid i bysgotwyr ac ymwelwyr ddefnyddio'r biniau a ddarparwyd yn y maes parcio neu fynd â'r sbwriel adref.
6	Ni chaniateir nofio yn y llynnoedd.
7	Mae angen trwydded gwialen Asiantaeth yr Amgylchedd i bysgota yn Llynnoedd Llŷn (lleiafswm o 2 drwydded ar gyfer 3 gwialen). Rhaid i bysgotwyr gyflwyno'r trwydded hwn cyn medru pysgota. Gallwch wneud cais am drwydded arlein ar: <a href="http://www.environment-agency.gov.uk/cy/default.aspx?">http://www.environment-agency.gov.uk/cy/default.aspx?</a>
8	Dim pysgota heb fod wedi prynu tocyn. Mae angen un tocyn i bob pysgotwr. Ni chaniateir trosglwyddo tocynnau.
9	Mynediad i'r lan ar gyfer tocyn diwrnod o 07.30am, dechrau pysgota am 08.00yb.
10	Dim mynediad i'r llynnoedd rhwng 7.30pm - 7.30am, heblaw pan fo'r rheolwyr wedi cydsynio i bysgota nos.
11	Mae pysgota nos (7pm - 7am) trwy drefniant yn unig ac wedi'i gyfyngu i bysgotwyr sydd yn flaenorol wedi cymryd rhan mewn teithiau pysgota diwrnod. Mae trefniant o'r fath yn ôl doethineb y rheolwyr yn unig, ac mae eu penderfyniad yn derfynol.
12	Ni chaniateir mynd â physgod o'r llynnoedd.
13	Rhaid i bob pysgodyn gael ei drin yn ofalus a'i ddychwelyd i'r dŵr yn gyflym. Gwaherddir rhoi pysgod mewn sach. Rhaid i'r pysgod gael eu symud mewn sling neu rwyd – BYTH â llaw – i osgoi damweiniau.
14	Bachau DIDAGELL yn unig.
15	Dim rhwydi cadw.
16	Lein 8 bwys o leiaf. Dim pwysau plwm sefydlog (lled-sefydlog yn cael eu caniatâu).
17	Uchafswm o 3 gwialen i bob pysgotwr yn cael eu caniatâu ar y lan (caniateir fflôt marcio yn ychwanegol).
18	Gwaherddir abwydau cnau a gwelyau o hadau pur (e.e. cywarch/hadau adar/cyflyrydd hadau colomen).
19	Gwaherddir abwyd rwyber/plastig/artiffisial (h.y. abwyd heb unrhyw werth maeth).
20	Rhaid defnyddio matiau dad-fachu ac antiseptig (e.e. klinik neu bonjela) bob amser.
21	Dylid cadw at gyfarwyddiadau'r tanc dipio (ar gyfer slingiau, rhwydi a matiau, os y defnyddiwyd nhw yn rhywle arall yn flaenorol).
22	Maint rhwyd rhesymol ar gyfer y prif lyn – isafswm o 36".
23	Dim pysgotwyr o dan 16 oed heblaw yng nghwmni oedolyn.
24	Dim cŵn. (Mae cyfleusterau cytiau ci dyddiol ar gael ar gyfer pysgotwyr ac ymwelwyr am ffi.)
25	Mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i ganslo trefniant neu wrthod mynediad.
26	Cymerir tâl pan fydd y talwr wedi cydnabod y rheolau dŵr/amodau. Bydd methiant i gydymffurfio â'r amodau yn arwain at waharddiad – ni roddir ad-daliad.
27	Mae pob unigolyn sy'n cael mynediad i'r safle yn gwneud hynny ar ei fenter ei hunan.

# RHEOLAU a RHEOLIADAU – CARAFANIO a GWERSYLLA

I sicrhau diogelwch ymwelwyr ac i gynnal cywirdeb amgylcheddol yr ardal, mae'r rheolau a'r rheoliadau canlynol mewn grym pan yn carafanio neu'n gwersylla. Rhaid i bob ymwelydd ddarllen a derbyn y telerau ac amodau cyn carafanio neu wersylla.

1	Mae'r ffi ar gyfer y safle yn ffi gynhwysol ar gyfer parcio carafan, carafan modur neu babell (h.y. uned deithio) ac un car.
2	Mae mynediad i'r parc o hanner dydd ar y diwrnod cyrraedd ac mae'r safleoedd i gael eu gwagio erbyn 11am ar y diwrnod gadael.
3	Mae'r holl brisiau a nodir yn cynnwys TAW.
4	Rhaid rhoi pob sbwriel y tu mewn i'r biniau olwynion (ailgylchwch lle bo hynny'n bosibl).
5	Dim tanau gweryll.
6	Rhaid rhoi barbeciws tafladwy ar friciau (a ellir eu darparu) nid ar y glaswellt. Rhaid dangos pob ystyriaeth i ymwelwyr eraill.
7	Ni fyddwn yn goddef sŵn gormodol.
8	Rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser, ac er mwyn iechyd a diogelwch rhaid cael gwared o unrhyw garthion yn syth.
9	Mae rheolwyr y wersyllfan yn cadw'r hawl i yrru unrhyw garafan, pabell neu drigolion i ffwrdd os oes achos, megis sŵn, niwsans, sbwriel ayyb, a hynny heb ad-daliad ffioedd na'r blaendal a dalwyd.
10	Rhaid talu pob ffi cyn gosod unrhyw garafan neu babell.
11	Yn ystod gwyliau ysgol a gwyliau banc, gall carafanau teithiol sicrhau lle am wythnosau llawn yn unig (Sadwrn tan Sadwrn).
12	Ni roddir ad-daliad am dywydd drwg, gorfod gadael yn gynnar ayyb.
13	Rhaid talu blaendal o 25% wrth drefnu i aros. Mae gweddill y ffi yn daladwy yn llawn wrth gyrraedd.
14	Anterth y tymor = Gwyliau Ysgol a Banc.
15	Tymor tawel = Pob dyddiad arall rhwng 1 Ebrill a 31 Hydref.